

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	22 Hydref 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Defnyddio data wrth gynllunio cyllideb gwasanaeth preswyl oedolion' Cyflwynir hefyd ddiweddariad ar y Rhaglen Waith ar gyfer 2026 er gwybodaeth.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.
- 1.3. Mae copi o adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar 'Ddefnyddio data wrth gynllunio cyllideb gwasanaeth preswyl oedolion' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Fe gynhaliwyd yr adolygiad hwn ar draws pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2026. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhelliad o fewn yr adroddiad. Bydd **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid/Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol** yn mynychu'r cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.
- 1.4. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru yn 2026 ar gyfer Cyngor Gwynedd er gwybodaeth.